

CYFANSODDIAD
CLERA
(diwygiwyd Mawrth 2007)



1. TEITL

Enw llawn y gymdeithas fydd CLERA, Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru. O hyn ymlaen, cyfeirir ati fel “Y Gymdeithas”.

2. AMCANION

Amcanion y Gymdeithas fydd:

- i. Hyrwyddo addysg y cyhoedd yng ngherddoriaeth ac offerynnau traddodiadol Cymru, gyda phwyslais arbennig ar y delyn (yn arbennig y delyn deires, y delyn bedal, y delyn unrhes ddibedal a'r delyn wrachïod), y crwth, y ffidil, y ffliwt, y pibgorn, y pibgod a'r chwibanogl.
- ii. Hyrwyddo a datblygu'r gerddoriaeth draddodiadol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau uchod;
- iii. Hyrwyddo arddulliau a thechnegau perfformio, a dehongli'r gerddoriaeth uchod;
- iv. Addysgu a lledaenu'r traddodiad ymhlith y Cymry a gweddill y byd;
- v. Adfer gwir draddodiadau offerynnol Cymru i'w priod le ym mywyd y genedl;
- vi. Rhoi pwyslais arbennig ar yr elfennau hynny yn ein cerddoriaeth a'n hofferynnau traddodiadol sy'n unigryw i Gymru.

PWERAU

Ymhellach i'r amcanion uchod gall y gymdeithas:

- i. Hyrwyddo a threfnu cydweithrediad er mwyn cyflawni'r amcanion;
- ii. Casglu, lledaenu a chyfnewid gwybodaeth ar bob mater sy'n ymwneud â'n hamcanion;
- iii. Derbyn rhoddion neu fenthyg neu godi arian i ddibenion y gymdeithas o dan amodau a sicrwydd a ystyrir yn addas gan y pwyllgor;
- iv. Sicrhau cyfraniadau i'r gymdeithas drwy apeliadau personol, cyfarfodydd cyhoeddus, cyngherddau elusen ac fel arall.

3. IAITH

Y Gymraeg fydd iaith swyddogol y Gymdeithas. Gwneir pob ymdrech, fodd bynnag, i gyhoeddi deunydd y Gymdeithas yn ddwyieithog ar gyfer y cyhoedd ac aelodau di-Gymraeg.

4. AELODAETH

Bydd y Gymdeithas yn agored i unigolion, grwpiau neu gymdeithasau sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r amcanion a nodir yn rhif 2 uchod.

Pennir y tâl aelodaeth yn flynyddol gan y pwyllgor Gwaith. Bydd tâl aelodaeth pob aelod yn ddilys o ddiwrnod cyntaf Ionawr hyd at ddiwrnod olaf Rhagfyr.

5. RHEOLAETH

Bydd rheolaeth y Gymdeithas o ddydd i ddydd yn nwylo'r swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith.

6. OBLYGIADAU ARIANNOL AELODAETH

Ni fydd y Gymdeithas yn dal unrhyw aelod yngyfrifol yn bersonol am ddyledion sy'n deillio, neu ddifrod a achosir o ganlyniad i weithgareddau'r Gymdeithas, onibai y gellir dangos fod tor-ymddiriedaeth neu ymddygiad twyllodrus wedi digwydd.

7. Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH

- i. Bydd gan y Gymdeithas bedwar swyddog: Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd, a etholir gan yr aelodau yn y Cyfarfod Blynyddol.
- ii. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i greu unrhyw swydd arall y bernir sydd ei hangen, o blith aelodau'r Pwyllgor (e.e. Swyddog Aelodaeth neu Swyddog Marchnata). Bydd hawl gan un person i ddal mwy nag un o'r swyddi hyn os mai dyna ddymuniad y Pwyllgor.
- iii. Os bydd un o'r swyddi hyn yn mynd yn wag yn ystod y flwyddyn, gall y Pwyllgor ei llenwi, hyd at y Cyfarfod Blynyddol, o blith aelodau'r Pwyllgor.
- iv. Fel arfer ni fydd mwy na phymtheg aelod llawn o'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys y swyddogion. Yn y Cyfarfod Blynyddol, yn ychwanegol at y pedwar swyddog, bydd yr aelodau yn ethol saith aelod ychwanegol i'r Pwyllgor Gwaith. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i gyfethol hyd at ddau berson ychwanegol yn aelodau o'r Pwyllgor os bernir fod angen hynny.
- v. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hefyd hawl i gyfethol aelodau ar gyfer prosiectau arbennig a noddir gan y Gymdeithas, am gyfnod penodol.

8. TYMOR SWYDDOGAETH

- i. Disgwylir i bob Swyddog ac aelod o'r Pwyllgor aros yn eu swyddi am gyfnod o flwyddyn (neu, yn achos aelod a gyfetholwyd ynystod y flwyddyn, hyd at y Cyfarfod Blynyddol nesaf);
- ii. Mae pob Swyddog yn gymwys i'w ail-ethol.

9. CYFARFOD BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas heb fod yn llai na deng mis a heb fod yn fwy na phedwar mis ar ddeg ers y cyfarfod blaenorol. Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd roi lleiafswm o 14 diwrnod o rybudd i'r holl aelodau am y dyddiad, yr amser a'r lle y cynhelir y cyfarfod. Bydd hefyd yn gyfrifol am anfon agenda yn unol â gofynion y cyfansoddiad ynghyd â chopi o'r adroddiad blynyddol a mantolen ariannol.

Cyfarfod Cyffredinol Arbennig

Gellir galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig o'r Gymdeithas ar unrhyw adeg drwy benderfwiad y Pwyllgor Gwaith, neu ar unrhyw adeg os ceir cais ysgrifenedig gan o leiaf draean o aelodau'r Gymdeithas. Mewn achos o'r fath, bydd Ysgrifennydd y pwyllgor yn hysbysu'r holl aelodau gan ddilyn y drefn a nodir yng nghymal 9 uchod.

10. CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Y Cadeirydd fydd yn y gadair ym mhob Pwyllgor Gwaith os yw'n bresennol, neu'r Is-Gadeirydd os nad yw'n bresennol. Os na fydd yr un o'r ddau yn bresennol bydd y Pwyllgor Gwaith yn dewis Cadeirydd o blith yr aelodau sy'n bresennol. Mae'n angenrheidiol cael o leiaf 6 aelod yn bresennol er mwyn i benderfyniadau'r Pwyllgor fod yn ddilys.

11. PLEIDLEISIO

Mae gan berson sydd yn cadeirio unrhyw gyfarfod o'r Gymdeithas neu'r Pwyllgor Gwaith hawl i'w bleidlais ei hun yn ogystal â phleidlais fwrw os yw'r pleidleisiau yn gyfartal.

12. BLWYDDYN ARIANNOL

Bydd blwyddyn ariannol y Gymdeithas yn rhedeg o'r dydd cyntaf o Ionawr hyd at y dydd olaf o Ragfyr. Ynystod y cyfnod hwnnw:

- i. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn gweinyddu holl gronfeydd y gymdeithas er hyrwyddo'i hamcanion.
- ii. Cedwir cyfrif banc, fel y pennir gan y pwyllgor Gwaith, yn enw'r Gymdeithas. Bydd gofyn i'r holl sieciau a dynnir ar y cyfrif gael eu llofnodi gan o leiaf ddau aelod o'r pwyllgor hwnnw, a'r Trysorydd ddylai un ohonynt fod bob amser.
- iii. Bydd y Trysorydd yn cyflwyno adroddiad ariannol am y flwyddyn flaenorol ym mhob Cyfarfod Blynyddol.

13. NEWID YN Y CYFANSODDIAD

Gellir newid, gwella neu ychwanegu at y Cyfansoddiad hwn o bryd i'w gilydd yn ystod Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas trwy bleidlais gan ddwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Dylai rhybudd o gynigiad am unrhyw newid, gwelliant neu ychwanegiad i'r Cyfansoddiad fod yn nwylo'r Ysgrifennydd cyn Ionawr 1af bob blwyddyn.

14. DIRWYN Y GYMDEITHAS I BEN

Os y penderfynir rhoi terfyn ar waith y Gymdeithas ni ellir rhannu unrhyw arian neu eiddo sy'n perthyn i'r Gymdeithas (ar ôl talu dyledion neu dreuliau) i'r aelodau, ond yn hytrach eu rhoi i gymdeithas neu gymdeithasau elusennol eraill gydag amcanion tebyg i rai y Gymdeithas hon, neu i gymdeithas elusennol arall. Gellir dirwyn y Gymdeithas i ben trwy bleidlais dwy ran o dair o'r aelodau mewn Cyfarfod Blynyddol arferol neu arbennig.